**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED LLANDDOGED, LLANDDOGED, NOS LUN, 31ain Mawrth, 2025**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ),
Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng Rhys Griffiths(RG),
Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia OwenNO) Cyng Aaron Wynne(AW) (Cynghorwyr Sir)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Alun Morris(AM), Cyng. Eifion Williams(EW),

2. **CADARNHAU'R COFNODION 27ain IONAWR, 2025**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ALJ) ac eilwyd gan ( JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 **PLAC HANES Y CAWR IFAN GOCH**

Y clerc wedi cysylltu gyda Geraint o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y diweddariad ynglŷn â'r plac. Geraint wedi rhoi enw cyswllt arall i'r clerc Sion Edwards sydd yn gweithio yn yr Adran Technolg Gwyboaeth yn yr ymddiriedolaeth.

3.2**. FFYNNON LLANDDOGED, FFORDD EFAIL UCHAF, LLANDDOGED**

Y clerc wedi cysylltu gyda Trefor Roberts, Wern, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged ac wedi cael cadarnhad mae Mr Roberts sydd yn gyfrifol am y ffynnon.

**4. CYNNAL A CHADW**

4.1 Tyllau yn y ffordd ar ffordd Llanddoged wrth Cae Brychiad.
4.2 Tyllau yn ffordd wrth Rhiwdafnau ac ar y tro wrth Wigfa Maenan.

5. **UNRHYW FATER ARALL**

5.1 **FFEDERALEIDDO YSGOL. LLANDDOGED A YSGOL YSBYTY IFAN**

Nododd NO bydd pwyllgor yn cael eu sefydlu yn y sir i drafod os ydi'r cyngor am barhau gyda'r ffederaleiddio neu beidio.

5.2 **ARGLAWDD TANLAN**

Cafwyd diweddariad gan NO yn dilyn cyfarfod Arglawdd Tan Lan a gynhaliwyd ar y 25ain o Fawrth 2025. Cyhoeddodd fod un penderfyniad penodol wedi digwydd yn yr ardal yn led-ddiweddar, sef penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried gwaredu eu cyfrifoldebau o gynnal a chadw arglawdd Tan Lan, Maenan. Datganodd fod ffermwyr mewn ADM eraill ledled Cymru'n wyliadwrus iawn o'r penderfyniad hwn. Rhoddwyd cynnig ger bron y pwyllgor, sef y dylid y Grŵp Ymgynghorol ADM Afon Conwy ac Afon Ganol roi pleidlais o ddiffyg hyder yng Nghyfoeth Naturiol Cymru fel Bwrdd Draenio Mewnol Ardal Ddraenio Fewnol Conwy a Ganol, gan gymeryd y dyletswyddau o'i weinyddu yn ôl i ddwylo'r pwyllgor lleol.

5.3 **EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY**

Derbyniwyd llythyr gan bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn gofyn am rodd ariannol tuag at yr Eisteddfod. Penderfynwyd a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau rhoi cyfraniad o £40 i'r Eisteddfod.

5.4 **BWS TRAFNIDIAETH FFLECSI**
Cais i gael y bws fflecsi i alw ym Maenan. NO am anfon gwybodaeth ar e-bost i aelodau'r cyngor.
5.5 **POLISÏAU A MODEL GONTRACT CYFLOGAETH A SWYDD DISGRIFIAD Y CLERC**
Adolygwyd a chymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau'r polisïau'r cyngor ynghyd a Model Gontract Cyflogaeth a Swydd Ddisgrifiad y Clerc.

……………………………………….